# Coridorau

Mae coridorau bywyd gwyllt yn ffordd o gadw cynefinoedd yn gysylltiedig, hyd yn oed pan fo datblygiadau newydd yn torri cysylltiad ardaloedd a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig. Mae coridorau bywyd gwyllt yn galluogi anifeiliaid i symud yn ddiogel ar draws ardaloedd eang. Gallant fod ar nifer o ffurfiau yn cynnwys: gwrychoedd, ochrau ffyrdd, ymylau caeau a gerddi trefol.

**Rheolau'r gêm**

- *Mae'r grid eisoes yn cynnwys ffyrdd ac afonydd, ac mae'n rhaid i chi ychwanegu 30 sgwâr cynefin gwyrdd a 30 sgwâr tref coch i'r grid.*
- *Mae angen i chi wneud yn siŵr bod llwybr gwyrdd o'r dechrau i'r diwedd fel y gall anifeiliaid ei ddilyn yn ddiogel.*
- *Gallwch symud rhwng y sgwariau sydd wrth ymyl ei gilydd, ond nid yn groeslinol.*
- *Pryd bynnag mae'n rhaid i'ch llwybr groesi ffordd neu afon, mae'n rhaid i chi ddyfeisio ffordd ddiogel i'r anifeiliaid groesi.*


**Lluniwch a disgrifiwch eich dyfais isod:**



*Mae colli coedwigoedd yn achosi mwy o allyriadau $CO^2$ na holl drafnidiaeth y byd.*

# Gêm Fwrdd Coridor

**Diwedd**



**Dechrau**

30 sgwâr cynefin

30 sgwâr tref



✱ *Ticiwch bob sgwâr wrth i chi ei ychwanegu i'r grid*



*Mae rhostir yn gynefin mwy prin na fforestydd glaw.*